**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG XXXXX y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG XXXX wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG XXXXX felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG XXXX ar ddyddiad, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG XXXXX yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

| |
|---|
| **Manylion cyswllt:**<br><br>**Enw (Clerc CYSAG):**<br><br>**Cyfeiriad:** |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

**Materion i gael sylw**

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

**Materion i gael sylw**

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | | | | | **Ydy** | | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | | | | | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: (Pennaeth)

Dyddiad: